Cyllid &
Thollau EM



#FfeindiofyCTF

# **10 peth** y mae angen i chi eu gwybod am Gronfeydd Ymddiriedolaeth Plant



Cyflwynwyd y cynllun Cronfa Ymddiriedolaeth Plant gan lywodraeth y DU i ddarparu pot o arian i chi pan gyrhaeddwch 18 oed a'ch annog i ddatblygu arfer cynilo drwy gydol eich bywyd yn oedolyn.



1. Os cawsoch eich geni rhwng 1 Medi 2002 ac 2 Ionawr 2011, ac roedd eich rhieni yn cael Budd-dal Plant, mae'n debyg bod gennych gyfrif Cronfa Ymddiriedolaeth Plant. Mae rhagor o wybodaeth ar-lein yn www.gov.uk/cronfeydd-ymddiriedolaeth-plant

2. Efallai bod eich rhiant neu warcheidwad wedi cael taleb i'w defnyddio i agor cyfrif Cronfa Ymddiriedolaeth Plant i chi. Os na wnaeth eich rhiant neu warcheidwad agor cyfrif, efallai y byddai CThEM wedi agor un ar eich rhan.

3. Os ydych yn troi'n 18 oed o 1 Medi 2020, gallwch gael mynediad i'ch cyfrif Cronfa Ymddiriedolaeth Plant a chodi arian ohono.

4. Os ydych yn 16 neu'n 17 oed gallwch gymryd cyfrifoldeb dros eich cyfrif Cronfa Ymddiriedolaeth Plant oddi wrth eich rhiant neu warcheidwad, neu gallwch ddewis gadael iddo barhau i'w reoli ar eich rhan.

5. Mae amryw o opsiynau o'r hyn y gallwch ei wneud gyda'ch arian, gan gynnwys ei symud i ISA neu fath arall o gyfrif cynilo neu fuddsoddi. **Gall eich darparwr Cronfa Ymddiriedolaeth Plant eich cynghori ar yr opsiynau sydd ar gael i chi.**

6. Gallwch ofyn i'ch rhiant neu warcheidwad am fanylion eich cyfrif Cronfa Ymddiriedolaeth Plant os yw'r manylion ganddo.

7. Os nad oes gan eich rhiant neu warcheidwad fanylion eich cyfrif Cronfa Ymddiriedolaeth Plant, gallwch ofyn i CThEM pwy yw eich darparwr Cronfa Ymddiriedolaeth Plant drwy lenwi ffurflen ar-lein yma www.gov.uk/cronfeydd-ymddiriedolaeth-plant/-dod-o-hyd-i-gronfa-ymddiriedolaeth-plant.
Ar ôl i chi gysylltu â'ch darparwr, bydd yn dweud wrthych faint sydd gennych yn eich cyfrif Cronfa Ymddiriedolaeth Plant.

8. Bydd angen eich rhif Yswiriant Gwladol arnoch i gael mynediad at y ffurflen hon. Mae hwn yn 2 lythyren wedi'u dilyn gan 6 rhif ac 1 llythyren, megis QQ123456A. Os nad ydych yn gwybod beth yw'ch rhif Yswiriant Gwladol, gallwch ofyn amdano drwy gysylltu â Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM ar 0300 200 1900.

9. Bydd angen hefyd Ddynodydd Defnyddiwr (ID) ar gyfer Porth y Llywodraeth arnoch. Os nad oes gennych hwn eisoes, mae'n hawdd sefydlu un yma www.gov.uk/cronfeydd-ymddiriedolaeth-plant/-dod-o-hyd-i-gronfa-ymddiriedolaeth-plant

10. Os na allwch gysylltu â'ch darparwr Cronfa Ymddiriedolaeth Plant yn syth ar ôl eich pen-blwydd yn 18 oed, peidiwch â phoeni, bydd yn cadw'ch buddsoddiadau'n ddiogel mewn cyfrif gwarchodedig nes i chi ddweud wrtho beth rydych am ei wneud gyda'ch arian.

